**LGH-15-00 (min)**

**Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI**

**COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR**

**Dyddiad:** Dydd Mercher 13 Rhagfyr 2000

**Amser:** 9.30am hyd 12.10pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Yn bresennol:**

*Aelodau:*

| | |
|---|---|
| Gwenda Thomas (Cadeirydd) | Castell-nedd |
| Edwina Hart (Gweinidog) | Gyr |
| Peter Black (Dirprwy Weinidog) | Gorllewin De Cymru |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| William Graham | Dwyrain De Cymru |
| Peter Law | Blaenau Gwent |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru (heb gynnwys eitem 6) |
| Tom Middlehurst | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |

*Yn bresennol:*

| | |
|---|---|
| Adam Peat | Cyfarwyddwr, Y Grp Llywodraeth Leol (eitemau 1 i 5) |
| Doug Elliott | Pennaeth Swyddfa'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru (eitem 4) |
| Andrew Lewis | Archwilydd Dosbarth (eitem 4) |
| Molly Lewis | Arolygydd Arwain Gwerth Gorau (eitem 4) |
| David A'Herne | Cyfarwyddwr Lleihau Troseddu Cymru (eitem 5) |
| Steven Phillips | Yr Is-adran Polisi Economaidd (eitem 6) |
| John Bader | Yr Is-adran Adnewyddu Tai a Chymunedau (eitem 7) |
| Peter Harding | Yr Is-adran Adnewyddu Tai a Chymunedau (eitem 7) |
| Judy Wayne | Ymgynghorydd Arbenigol (eitem 8) |
| Helen Lentle | Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol |
| *Ysgrifenyddiaeth:* | |
| Martin Stevenson | Clerc y Pwyllgor |
| Phil Mulraney | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Eitem 1: Ymddiheuriadau ac eilyddion**

1.1 Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau nac eilyddion.

**Eitem 2: Datgan buddiannau**

2.1 Gwnaethpwyd y datganiadau canlynol:

- Dywedodd Peter Black ei fod yn Aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe;
- Dywedodd William Graham ei fod yn Aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Casnewydd;
- Dywedodd Janet Davies ei bod yn Gadeirydd Cyngor Cymuned Llanhari;
- Dywedodd Dai Lloyd ei fod yn Aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe;
- Dywedodd Janet Ryder ei bod yn Aelod o Gyngor Tref Rhuthun.

**Eitem 3: Adroddiad y Gweinidog: LGH-15-00 (p.1)**

3.1 Cyflwynodd Edwina Hart ei hadroddiad i'r Pwyllgor. Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Dywedodd y Gweinidog ei bod wedi cyhoeddi'r setliad refeniw i lywodraeth leol ar 12 Rhagfyr, a bod awdurdodau lleol unigol wedi'u hysbysu o'u dyraniadau arwyddol. Ffigurau dros dro oedd y rhain, gyda'r penderfyniadau terfynol ar setliad 2001-02 i'w gwneud yn gynnar fis Chwefror pryd y byddid yn gofyn i'r Cynulliad Cenedlaethol gymeradwyo'r adroddiad cyllid llywodraeth leol. Ar gyfer y dyfodol, dywedodd Edwina Hart ei bod yn ystyried sut y gellid cyhoeddi'r setliad yn gynharach, er mwyn rhoi mwy o amser i awdurdodau lleol i gynllunio eu cyllideb.
- Nododd y Pwyllgor fod adolygiad polisi i'w gynnal ar broses Strategaeth Tai a Chynllun Gweithredol yr awdurdodau lleol. Cytunodd y Gweinidog i ysgrifennu at yr Aelodau gyda manylion aelodaeth y gweithgor a fyddai'n tywys y gwaith hwn yn ei flaen.
- Ymrwymodd y Gweinidog i ddarparu rhestr i'r Pwyllgor o'r materion sy'n codi o gyfarfod y Cyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol ar 11 Rhagfyr. Dywedodd mai ymateb cychwynnol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i'r awgrym y dylai'r Pwyllgor sefydlu rhaglen o ymweliadau ag awdurdodau lleol unigol oedd y byddai'n fwy priodol i'r Pwyllgor gwrdd â Phwyllgor Cyd-drefnu'r Gymdeithas, sydd yn cynnwys cynrychiolwyr o bob awdurdod lleol.
- Yr oedd y Pwyllgor yn fodlon ag awgrym y Gweinidog i gyflwyno papur ar bartneriaethau cyhoeddus preifat a'r fenter cyllid preifat, yn unol â'r cynnig a gymeradwywyd yn y ddadl yn y cyfarfod llawn ar 5 Rhagfyr.

3.2 Cafwyd rhywfaint o drafod yngln â pha mor aml y mae'r Gweinidog yn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor. Cytunwyd y byddai'r Gweinidog yn paratoi adroddiad ysgrifenedig yn fisol i'r dyfodol, er y byddai'r eitem yn dal i ymddangos ar agenda pob cyfarfod. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n ddiolchgar o gael gwybod ymlaen llaw am unrhyw faterion yr oedd Aelodau am eu codi yng nghyd-destun ei hadroddiad.

**Eitem 4: Gwerth Gorau: LGH-15-00 (p.2)**

4.1 Cyflwynodd Doug Elliott bapur y Comisiwn Archwilio ar y Gwerth Gorau. Eglurodd ei fod yn ymdrin â'r darganfyddiadau o'r archwiliad o Gynlluniau Perfformiad Gwerth Gorau y flwyddyn gyntaf, cynlluniau'r Comisiwn Archwilio i gynorthwyo awdurdodau Gwerth Gorau, y cynlluniau gogyfer ag adolygiadau ac archwiliadau Gwerth Gorau ac ymateb y Comisiwn Archwilio ei hun i ddatblygiadau Gwerth Gorau.

4.2 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Teimlai'r Pwyllgor fod awdurdodau lleol yn ymdrin â'r Gwerth Gorau mewn ffordd gadarnhaol, a bod cynnydd wedi'i wneud gyda Chynlluniau Perfformiad y flwyddyn gyntaf. Yr oedd y gyfundrefn Gwerth Gorau fodd bynnag yn golygu newid diwylliant mawr i awdurdodau lleol, a byddai'n cymryd amser i gymhathu'r newid hwnnw'n llwyr.
- Nododd y Pwyllgor ddarganfyddiadau'r Comisiwn Archwilio o flwyddyn gyntaf y Cynlluniau

Perfformiad Gwerth Gorau yng Nghymru, yn ogystal â'r bwriad i gyflwyno'r darganfyddiadau hyn mewn adroddiad sydd i'w gyhoeddi yn y Flwyddyn Newydd (gan gynnwys canlyniadau arolwg diweddar gan MORI). Awgrymwyd mai da o beth fyddai i'r adroddiad ganmol yr awdurdodau hynny a oedd wedi llunio Cynlluniau Perfformiad Gwerth Gorau da.

- Yr oedd yna bryder bod y gyfundrefn Gwerth Gorau mor gymhleth. Croesawai'r Aelodau y cynnig i gynnal arolwg cloriannu ar y cyd rhwng y Cynulliad Cenedlaethol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Comisiwn Archwilio gyda'r nod o ganfod y posibiliadau er symleiddio a gwella effeithiolrwydd y broses Gwerth Gorau fel y mae ar hyn o bryd.
- Teimlai'r Aelodau ei bod yn bwysig cynnwys y cyhoedd yn y broses Gwerth Gorau, ac yr oedd yna bryder yngln â pha mor hawdd yw hi i gael gafael ar Gynlluniau Perfformiad Gwerth Gorau. Dywedodd Andrew Lewis fod y Cynlluniau gorau, yn ei brofiad ef, yn gryno a phwrpasol. Er bod yn rhaid wrth y ddogfen lawn i helpu i sicrhau unrhyw welliannau rheoli, teimlai y byddai'n fwy priodol darparu crynodeb byr o'r Cynllun Perfformiad Gwerth Gorau ar gyfer y cyhoedd.
- Cafwyd rhywfaint o drafod pa un a yw'n briodol i archwilwyr adrodd ar drefniadau rheoli perfformiad corfforaethol awdurdodau lleol ai peidio. Barn y Comisiwn Archwilio oedd fod ei rôl wedi'i hymgorffori mewn deddfwriaeth ac yn y Cod Ymarfer Archwilio a gymeradwywyd gan y Senedd, a'i bod yn ofynnol iddo ystyried y trefniadau hyn fel rhan annatod o'r broses o sicrhau gwelliannau gwasanaeth. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n darparu nodyn i'r Pwyllgor ar y cwestiwn pa un a yw Deddf Llywodraeth Leol 1999 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn Archwilio ystyried perfformiad corfforaethol awdurdodau er hybu'u Cynlluniau Perfformiad Gwerth Gorau, neu yn ei awdurdodi i wneud hynny, ai peidio. Byddai'r nodyn hefyd yn ymdrin â phwerau ymyrryd y Cynulliad Cenedlaethol pan fernir bod awdurdod lleol yn methu fel awdurdod Gwerth Gorau.
- Yr oedd yna bryder yngln â chost gynyddol archwiliadau ac arolygiadau Gwerth Gorau. Dywedwyd i un awdurdod tân yng Nghymru adrodd i gost y broses Gwerth Gorau fod yn gymaint â chost injan dân newydd. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n trafod effaith y gyfundrefn Gwerth Gorau gyda'r awdurdodau tân cyn bo hir, ac ymrwymodd i roi gwybod i'r Pwyllgor beth fyddai canlyniad y trafodaethau hynny. Dywedodd Doug Elliott fod y Comisiwn Archwilio wedi datgan yn gyhoeddus y byddai lefel y ffïoedd archwilio drwyddi draw yn gostwng yn 2000-01, gyda'r arbedion yn bennaf ym maes Gwerth Gorau a gwerth-am-arian. Adlewyrchai hynny symudiad tuag at archwilio ar sail risg.
- Nodwyd bod Fforwm Arolygiaethau Cymru, sy'n dod â'r holl arolygiaethau yng Nghymru ynghyd, yn gweithio i ddatblygu ffordd gydlynol o ymdrin ag arolygiadau Gwerth Gorau. Byddai hyn yn help i leihau'r baich ar awdurdodau lleol.

4.3 Diolchodd y Cadeirydd i dîm y Comisiwn Archwilio am ei gyflwyniad ac am ymateb i gwestiynau'r Aelodau.

**Eitem 5: Diogelwch cymunedol a lleihau troseddu: LGH-15-00 (p.3)**

5.1 Cyflwynodd y Gweinidog y papur, a roddai'r wybodaeth ddiweddaraf am brif ddarpariaethau Deddf Troseddu ac Anhrefn 1998 a'r Rhaglen Lleihau Troseddu. Dywedodd ei bod yn cwrdd yn rheolaidd ag awdurdodau heddlu Cymru, a bod yr heddlu wedi cynnig dau secondiad i'r Cynulliad

Cenedlaethol yn ddiweddar. Pwysleisiodd Edwina Hart bwysigrwydd gostwng lefel troseddu wrth adfywio cymunedau.

5.2 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Croesawai'r Pwyllgor yr adroddiad, a theimlai ei fod yn grynodeb gwerthfawr o'r cynlluniau amrywiol sydd gan y Cynulliad Cenedlaethol sydd ag elfen yn ymwneud â gostwng lefel troseddu yn rhan ohonynt.
- Yr oedd yna bryder o hyd fod y cyfrifoldeb am gyfiawnder yr ifanc yn gorffwys gyda'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn hytrach na'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau. Cadarnhaodd y Cadeirydd nad oedd eto wedi derbyn ateb i'w llythyr at Brif Weinidog Cymru ar y pwynt hwn. Ymrwymodd i ysgrifennu eto yn ailadrodd barn y Pwyllgor.
- Cafwyd awgrym y byddai'n briodol hefyd i'r polisi ar gamddefnyddio sylweddau fod yn rhan o bortffolio'r Gweinidog. Nodwyd bod crynodeb o'r strategaeth ar fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau wedi'i gyhoeddi'n ddiweddar, a chytunwyd y dylai gael ei ddosbarthu i'r Pwyllgor. Yn ogystal, dywedodd y Cadeirydd y byddai'n codi gyda Phanel y Cadeiryddion y cwestiwn yngln â sut mae delio orau â materion trawsbynciol fel hyn mewn pwyllgorau pwnc.
- Nodwyd bod y strategaethau troseddu ac anhrefn a baratowyd gan y partneriaethau lleol ar gyfer gostwng lefel troseddu ac anhrefn yn cael eu rhoi ar waith bellach. Yr oedd y partneriaethau yn gweithio i sicrhau bod y strategaethau yn gydnaws â phob strategaeth leol arall. Byddai yna ddolen gyswllt gref rhyngddynt a'r strategaethau cymunedol sydd i'w paratoi gan awdurdodau lleol.
- Croesawodd yr Aelodau yr wybodaeth am brosiectau llwyddiannus o Gymru yn y Rhaglen Lleihau Troseddu, gan gynnwys grantiau o £2.6 miliwn tuag at brosiectau teledu cylch cyfyng. Awgrymwyd mai dim ond os byddai'r heddlu'n barod i ymateb i ddigwyddiadau y gallai'r cynlluniau hyn lwyddo, ac y dylai'r Ysgrifennydd Cartref geisio cynyddu nifer swyddogion yr heddlu yng Nghymru ar fyrder.
- Awgrymwyd y dylai unrhyw gynigion i ganiatáu trwyddedu tafarndai am 24 awr gynnwys darpariaeth i alluogi cymunedau lleol i gyflwyno'u sylwadau am y drefn drwyddedu a deimlent fyddai'n briodol i'w hardaloedd hwy.

5.3 Diolchodd y Cadeirydd i David A'Herne am ei adroddiad ac am ateb cwestiynau'r Aelodau.

**Eitem 6: Adfywio trefol: LGH-15-00 (p.4)**

6.1 Wrth gyflwyno'r papur, dywedodd Gweinidog ei fod yn grynodeb o'r Papur Gwyn Trefol a gyhoeddwyd yn ddiweddar 'Our Towns and Cities: The Future – Delivering an Urban Renaissance'. Nodai'r papur hefyd y polisïau neilltuol a 'Wnaethpwyd yng Nghymru' a oedd yn cael eu datblygu mewn ymateb i'r materion a godwyd yn y Papur Gwyn.

6.2 Cefnogai'r Pwyllgor y ffordd yr oedd y Gweinidog yn mynd ati i ddatblygu pecyn neilltuol o bolisïau i fynd i'r afael ag adfywio trefol yng Nghymru, ynghyd â chreu Uned Drefol newydd i

symud y gwaith hwn yn ei flaen. Teimlai'r Aelodau y dylai fod gan y Cynulliad Cenedlaethol gymaint o hyblygrwydd â phosibl i ddatblygu ei fframwaith polisi yn y maes hwn, ac y dylai gael cyfran deg o unrhyw adnoddau ychwanegol a allai ddod ar gael. Byddai'n bwysig hefyd i'r Cynulliad Cenedlaethol gyfleu ei farn wrth Lywodraeth y DU am unrhyw newidiadau y byddai'n hoffi eu gweld mewn deddfwriaeth sylfaenol.

6.3 Croesawai'r Aelodau y mesurau amrywiol i helpu ardaloedd trefol yn Adroddiad Cyn-y-Gyllideb Canghellor y Trysorlys, yn enwedig y mesur i eithrio cymunedau sydd â diffyg mantais rhag y dreth stamp, y credydau treth cyflymedig am lanhau tir sydd wedi'i ddifwyno a'r diwygiadau TAW er mwyn annog trosi adeiladau i'w defnyddio at ddibenion preswyl. Fodd bynnag, nodwyd mai dim wrth werthu eiddo y prisiwyd ei fod yn werth rhagor na £60,000 y byddai'r eithriad rhag y dreth stamp yn dod i rym, a chyfyngedig fyddai effaith y mesur yng Nghymru o'r herwydd. Teimlid hefyd bod yna le i ehangu cwmpas y diwygiadau TAW. Yn benodol, awgrymwyd y dylid codi cyfradd TAW o 5 y cant ar unrhyw waith adnewyddu tai, ac y dylid codi TAW ar dai newydd ar yr un gyfradd ag ar waith adnewyddu, er mwyn gwneud i ffwrdd â'r cymhelliant i ddatblygu safleoedd tir glas.

6.4 Gwahoddodd y Cadeirydd y Gweinidog i gymryd barn y Pwyllgor ar yr ymateb i'r Papur Gwyn Trefol i ystyriaeth. Dywedodd y Gweinidog y byddai ei hymateb i Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau yn cynnwys nodyn cryf yngln â rôl y Cynulliad Cenedlaethol yn datblygu polisïau sy'n briodol i Gymru. Ymrwymodd hefyd i ddarparu nodyn ar gyfer y Pwyllgor ar oblygiadau'r Adroddiad Cyn-y-Gyllideb i adfywio trefol.

**Eitem 7: Rhaglen Cefnogi Pobl: LGH-15-00 (p.5)**

7.1 Dywedodd y Gweinidog fod y papur yn nodi'r broses ar gyfer datblygu'r polisi ar Gefnogi Pobl hyd nes y cyflwynir y system newydd yn 2003. Bu yna honiadau fod Cymru yn llusgo ar ôl Lloegr o ran bwrw ati i roi Cefnogi Pobl ar waith. Fodd bynnag, wrth ddweud hynny nid oeddid yn cydnabod yr angen i ddatblygu polisi pwrpasol yng Nghymru a fyddai'n gwarchod gwasanaethau ar gyfer pobl sy'n agored i niwed a hefyd yn gwarchod awtonomiaeth llywodraeth leol. Yr oedd papur ymgynghorol ar fin cael ei gyhoeddi ar y trefniadau cyllido a gweithredu ar gyfer Cefnogi Pobl, a ddatblygwyd ar y cyd â grp cyfeirio allanol a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sectorau statudol a gwirfoddol.

7.2 Dywedodd y Gweinidog hefyd ei bod wedi darparu £1.12 miliwn ar gyfer 2001-02 fel rhan o'r setliad refeniw i lywodraeth leol i gydnabod y baich o roi Cefnogi Pobl ar waith ar y lefel leol.

Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Cymeradwyai'r Pwyllgor y ffordd yr oedd y Gweinidog yn mynd ati i ddatblygu polisi ar wahân i Gymru ar Gefnogi Pobl, wedi'i deilwrio i amgylchiadau Cymru.
- Gofynnodd y Cadeirydd a oedd paragraffau 3.8 a 4.4 o'r papur, a gyfeiriai at gyfrifoldebau awdurdodau lleol mewn perthynas â gofal yn y gymuned, yn gyson â'i gilydd. Dywedodd y Gweinidog y ceid eglurhad ar y pwynt hwn yn y papur ymgynghorol sydd i'w gyhoeddi'n

fuan.
- Dywedodd y Gweinidog fod y cyllid ychwanegol i gynorthwyo awdurdodau lleol i roi Cefnogi Pobl ar waith yn 2001-02 wedi'i ddarparu yn y setliad llywodraeth leol. Dywedodd y byddai'n ystyried yn angen am gyllid cyffelyb yn 2002-03 a 2003-04 yng nghyd-destun cylch cyllideb y flwyddyn nesaf, ac y byddai'n rhoi ystyriaeth bellach i'r peirianwaith dosbarthu bryd hynny.
- O safbwynt y cyllid ar gyfer y rhaglen Cefnogi Pobl a fyddai'n trosglwyddo i'r Cynulliad Cenedlaethol o gyllidebau'r Adran Nawdd Cymdeithasol a'r Swyddfa Gartref o 2003-04 ymlaen, nodwyd mai gwybodaeth am y gwasanaethau a'r costau cyfredol fyddai'n pennu maint y trosglwyddiad. Fodd bynnag, gyda throsglwyddiad lle cyfyngir ar y swm o arian, yr oedd yna bryder y byddai'n rhaid cyllido unrhyw gynnydd diweddarach yn y gefnogaeth ariannol a roddir i Gefnogi Pobl o gyllidebau eraill y Cynulliad Cenedlaethol. O dan yr amgylchiadau hynny teimlai'r Pwyllgor mai priodol fyddai i'r Gweinidog wneud cais i Drysorlys E M am yr arian ychwanegol.

7.4 Gwahoddodd y Cadeirydd y Gweinidog i gymryd barn y Pwyllgor i ystyriaeth wrth fwrw ymlaen i roi Cefnogi Pobl ar waith. Cytunwyd y byddai'r Pwyllgor yn ystyried y mater hwn eto pan fyddai canlyniadau'r ymarferiad ymgynghori ar gael.

**Eitem 8: Adolygu'r polisi trosglwyddo stoc tai: LGH-15-00 (p.6)**

8.1 Dywedodd y Cadeirydd fod y papur yn cyflwyno ystod o faterion a oedd wedi'u nodi hyd yma yn ystod yr adolygiad polisi. Da o beth fyddai cael barn y Pwyllgor ar y materion sy'n dod i'r amlwg fel y gellid paratoi rhestr o argymhellion amlinellol erbyn y cyfarfod nesaf.

8.2 Ymatebodd y Gweinidog drwy ddweud bod yr adolygiad wedi hoelio'r sylw ar fater cyllido cyfalaf gan awdurdodau lleol. Yr oedd yn falch o weld y materion a oedd yn dod i'r amlwg a theimlai fod yr adolygiad yn cael ei gynnal mewn modd adeiladol iawn.

8.3 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Cytunai'r Aelodau y dylid dwyn pwysau ar Drysorlys E M i newid y rheolau sy'n pennu sut y caiff llywodraeth leol fenthyca arian. Oddi mewn i'r rheolau sy'n bodoli ar hyn o bryd, derbyniwyd na ddylai trosglwyddo stoc fod yn ddim ond un o'r opsiynau sydd ar gael i awdurdodau lleol fel ffordd o foderneiddio eu stoc tai.
- Cefnogwyd yr awgrym y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol lunio asesiad pendant o swmp y gwaith atgyweirio a moderneiddio hanfodol sydd wedi cronni ar y stoc tai cyngor. Yr oedd yr Aelodau am i'r wybodaeth hon fod ar gael ar lefel awdurdodau unigol.
- Gofynnwyd i Judy Wayne lunio nodyn ar ddyroddi bondiau a chyllido bondiau mewn perthynas â throsglwyddo stoc tai.
- Awgrymwyd y dylid ystyried yr wybodaeth sydd ar gael i denantiaid, yn ystod y cyfnod gwerthuso opsiynau ac yn ystod y broses trosglwyddo stoc, fel ei gilydd. Teimlai'r Aelodau ei bod yn bwysig ymgynghori â'r tenantiaid yn ystod y broses gwerthuso opsiynau, fel y gallent leisio eu barn cyn i unrhyw benderfyniadau gael eu gwneud.
- Yr oedd cefnogaeth i'r awgrym y dylid ymgymryd ag arolwg cyflwr stoc llawn fel rhan o'r

broses gwerthuso opsiynau.

- Awgrymwyd y dylai'r Pwyllgor roi ystyriaeth bellach i fodelau perchenogaeth ar wahân i'r model 'Perchenogaeth Gymunedol'.

8.4 Dywedodd y Cadeirydd y byddid yn mynd ati i lunio set amlinellol o argymhellion o'r adolygiad. Er mwyn helpu'r Pwyllgor, ymrwymodd y Gweinidog i ddarparu nodyn yn egluro safbwynt y Cabinet ar bob mater sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys y gost lle bo hynny'n berthnasol.

**Eitem 9: Cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 23 a 29 Tachwedd:**

**LGH-13-00 (min) ac LGH-14-00 (min)**

9.1 Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 23 a 29 Tachwedd.

9.2 Cytunwyd y byddai Janet Ryder yn ysgrifennu at y Gweinidog i holi yngln â'r cynnydd a wnaethpwyd ar nifer o bwyntiau gweithredu o gyfarfodydd blaenorol.

**Eitem 10: Sylwadau i gloi**

10.1 Diolchodd y Cadeirydd i Phil Mulraney, a fu'n Ddirprwy Glerc Dros Dro ers cyfarfod cyntaf y Pwyllgor ym mis Ebrill. Cyn dod â'r cyfarfod i ben, dymunodd Nadolig Llawen i'r Aelodau i gyd.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Rhagfyr 2000**

**Atodiad**

**CRYNODEB PWYNTIAU GWEITHREDU O GYFARFOD 13 RHAGFYR**

1. Cytunodd y Gweinidog i ysgrifennu at yr Aelodau gyda manylion aelodaeth y gweithgor a fyddai'n tywys yr adolygiad polisi ar broses Strategaeth Tai a Chynllun Gweithredol yr awdurdodau lleol yn ei flaen (paragraff 3.1).

2. Ymrwymodd y Gweinidog i ddarparu rhestr i'r Pwyllgor o'r materion sy'n codi o gyfarfod y Cyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol ar 11 Rhagfyr (paragraff 3.1).

3. Y Gweinidog i ddarparu nodyn i'r Pwyllgor ar y cwestiwn pa un a yw Deddf Llywodraeth Leol 1999 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn Archwilio ystyried perfformiad corfforaethol

awdurdodau er hybu'u Cynlluniau Perfformiad Gwerth Gorau, neu yn ei awdurdodi i wneud hynny, ai peidio. Byddai'r nodyn hefyd yn ymdrin â phwerau ymyrryd y Cynulliad Cenedlaethol pan fernir bod awdurdod lleol yn methu fel awdurdod Gwerth Gorau (paragraff 4.2).

4. Ymrwymodd y Gweinidog i roi adroddiad i'r Pwyllgor ar ei thrafodaethau gyda'r awdurdodau tân ar effaith y gyfundrefn Gwerth Gorau (paragraff 4.2).

5. Ymrwymodd y Cadeirydd i ysgrifennu eto at Brif Weinidog Cymru yn ailadrodd barn y Pwyllgor yngln â neilltuo cyfiawnder yr ifanc i bortffolios Gweinidogol (paragraff 5.2).

6. Y strategaeth a gyhoeddwyd ar fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau i gael ei dosbarthu i'r Pwyllgor (paragraff 5.2).

7. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n codi gyda Phanel y Cadeiryddion y cwestiwn yngln â sut mae delio orau mewn pwyllgorau pwnc â materion trawsbynciol megis camddefnyddio sylweddau (paragraff 5.2).

8. Ymrwymodd y Gweinidog i ddarparu nodyn ar gyfer y Pwyllgor ar oblygiadau'r Adroddiad Cyn-y-Gyllideb i adfywio trefol (paragraff 6.4).

9. Y Pwyllgor i ystyried canlyniadau'r ymarferiad ymgynghori ar Gefnogi Pobl (paragraff 7.4).

10. Gofynnwyd i Judy Wayne lunio nodyn ar ddyroddi bondiau a chyllido bondiau mewn perthynas â throsglwyddo stoc tai (paragraff 8.3).

11. Ymrwymodd y Gweinidog i ddarparu nodyn yn egluro safbwynt y Cabinet ar bob mater sy'n dod i'r amlwg drwy'r adolygiad polisi ar drosglwyddo stoc, gan gynnwys y gost lle bo hynny'n berthnasol (paragraff 8.4).